# Pwyllgor Mentergarwch a Dysgu

**EL(3) 14-08 (p3) : 14 Mai 2008**

## Ymchwiliad pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch

### Partneriaeth Addysg Busnes Morgannwg Ganol

Mae Partneriaeth Addysg Busnes Morgannwg Ganol yn gweithio â Campws Cyntaf Prifysgol Morgannwg er mwyn annog pobl ifainc i gyflawni eu potensial a gwella ymwybyddiaeth am gyfleoedd Addysg Uwch. Ymgymerir â dau brif brosiect.

### 1. ACE (Aiming for a College Education)

Mae'r gweithgaredd hwn yn targedu disgyblion Blwyddyn 9/10 sydd â'r gallu i fod yn rhan o Addysg Uwch ond nid oes ganddynt yr ysgogiad na'r hunanhyder i gredu ei fod yn opsiwn go iawn.

Mae pob Diwrnod ACE yn cynnwys 175 o ddisgyblion o bum ysgol.

Mae'r disgyblion yn cael eu rhannu ar hap i 15 o grwpiau. Mae pob grwp yn cynnwys dau fyfyriwr o Brifysgol Morgannwg sydd yn gweithredu fel hwyluswyr.

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio fel bo'r disgyblion yn ennill dealltwriaeth well am fywyd myfyriwr. Maen nhw'n cynnwys ymarferiad llif arian, cwis ar Addysg Uwch a dylunio poster yn hyrwyddo Diwrnod Agored y Brifysgol. Hefyd, mae taith o amgylch y campws.

Mae cinio yn rhad ac am ddim ac mae pob ysgol yn derbyn grant cludiant gwerth £50.

Mae pob Diwrnod ACE yn cael ei werthuso ac mae'r ymateb bob amser yn gadarnhaol iawn.

Mae Partneriaeth Addysg Busnes Morgannwg Ganol yn cefnogi 6 o Ddiwrnodau ACE y flwyddyn.

### 2. Tiwtora gan Fyfyrwyr

Bob blwyddyn mae hyd at 100 o fyfyrwyr Prifysgol Morgannwg yn treulio o leiaf 20 awr mewn ysgol leol. Gall y myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau rhyngbersonol tra'n cael blas ar yrfa yn y byd addysg. O safbwynt yr ysgol, mae myfyrwyr diwtoriaid yn adnodd gwerthfawr sydd yn rhoi cymorth â phrosiectau, rhoi sylw un wrth un i blant penodol a rhoi gwybod i athrawon am ddatblygiadau diweddaraf rhai meysydd disgyblu. Efallai'r brif fantais yw bod y myfyriwr yn chwalu'r rhwystrau rhwng Addysg Uwch ac ysgolion gan gynnig model rôl cadarnhaol i'r rhai nad ydyn nhw'n gyfarwydd ag Addysg Uwch.

Yn ogystal â diwrnodau ACE a Tiwtora gan Fyfyrwyr, mae staff Prifysgol Morgannwg hefyd yn cefnogi gweithgareddau Partneriaeth Addysg Busnes eraill fel ffug gyfweliadau a mentergarwch. Hefyd, y brifysgol yw'r lleoliad ar gyfer prosiect adolygu TGAU sydd yn cael ei gynnal adeg y Pasg bob blwyddyn.

Mae cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn helpu i godi proffil Addysg Uwch.